**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

8 Hydref 2018

Annwyl Kirsty

**SL(5)239 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 3) 2018**

Yn ein cyfarfod ar 17 Medi 2018, trafodwyd Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 3) 2018 ac yna, ar 21 Medi, cyflwynwyd **adroddiad** i'r Cynulliad.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd fod y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau'n cyfeirio at ymgynghoriad a gynhaliwyd ynghylch yr astudiaeth ddoethurol (Cymorth i astudiaethau doethurol, WG33258*)* rhwng 8 Rhagfyr 2017 a 2 Mawrth 2018. Nodwn fod y Memorandwm Esboniadol yn dweud na godwyd unrhyw faterion yn ystod y broses ymgynghori.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio pam nad oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, neu grynodeb o'r ymatebion hynny, yn ymddangos yn y Memorandwm Esboniadol a pham y cyhoeddwyd crynodeb ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.